# CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG

Adroddiad o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd **Nos Lun, 14eg Chwefror, 2022**, drwy gyfrwng 'zoom' o 7.30 p.m. hyd 8.15 p.m.

Presennol: Y Cynghorydd Dylan Parry Jones (Cadeirydd)
Y Cynghorwyr David Brunelli, Carys H. Evans, Glyn Roberts, Michael Strain, Carys E. Williams, Glenys Williams, Siôn Williams
Y Cynghorydd Gareth Williams (Y Cynghorydd Sir)
Ymddiheuriadau Y Cynghorwyr Elin Hughes, Gwenan Griffith, Ifor Owen

## 95. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

**Croesawodd** y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod a diolchodd unwaith yn rhagor i'r Cynghorydd Michael Strain am drefnu i'r Cyngor gael cyfarfod yn rhithiol.
Gofynnodd y Cadeirydd am farn yr aelodau ynglyn a chyfarfod wyneb yn wyneb a **phenderfynwyd** fod cyfarfod mis Mawrth i'w gynnal yng Nghanolfan Bryncroes.

## 96. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Nodir y datganiad o dan yr eitem berthnasol.

## 97. CADARNHAU COFNODION

**Cyflwynwyd** a chadarnhawyd cofnodion y Cyngor 10fed Ionawr, 2022. Cynigiwyd gan Y Cynghorydd Glenys Williams ac eiliwyd gan Y Cynghorydd Glyn Roberts.

**Materion yn codi**

**a) Eitem 86 Materion Ffyrdd a Llwybrau cymal Comin Bryncroes**

**Adroddodd** y Clarc nad oedd wedi derbyn ymateb yr Ymgymerwyr ynglyn a'r cyfraniad na'r sefyllfa ynglyn a'r fainc.

**b) Praesept 2022/23**

**Cyfeiriwyd** fod yr Eisteddfod Genedlaethol Llyn ac Eifionydd bellach am gael ei chael ym 2023 ym Moduan, ac felly fod yr ardaloedd bellach wedi ei ailgydio i godi arian at yr digwyddiad.
Gan i'r Cyngor yn ei gyfarfod 13eg Ionawr, 2020, benderfynu cyfrannu £1,000 ym mis Chwefror, 2020, at yr Eisteddfod gydag ymrwymiad o £1,000 arall yn ystod y flwyddyn ariannol 2020/21 yn y gobaith y byddai'r Eisteddfod yn cael ei chynnal ym 2021, ond oherwydd y pandemig bu raid gohirio popeth a bellach mae'r dyddiad wedi ei newid i 2023.
Yn wyneb yr uchod, gofynnwyd tybed a ddylid ystyried cyfrannu £1,000 yn ystod y flwyddyn ariannol 2021/22 tuag at yr Eisteddfod.
**Penderfynwyd** yn unfrydol fod y £1,000 i'w dalu i'r Pwyllgor Apel lleol yn ystod y flwyddyn ariannol 2021/22. Cynigiwyd gan Y Cynghorydd David Brunelli ac eiliwyd gan Y Cynghorydd Glenys Williams.
(Siec rhif 200746 i'r Eisteddfod Genedlaethol).

**c) Cyflwynwyd** cais O Law i Law am gymorth ariannol tuag at gynnal y gwasanaeth.
**Penderfynwyd** ystyried y cais ym mis Ebrill gyda cheisiadau eraill fydd i law.

## 98. CEISIADAU CYNLLUNIO

**Cyflwynwyd** y ceisiadau a ganlyn:

a) Cais C22/0032/32/DT – creu mynedfa gerbydol i'r ffordd – Efail Glandwr, Sarn Mellteyrn.
b) Cais C22/0053/32/LL - ymestyn sied amaethyddol i gadw stoc a.y. – Gwyndy, Penygroeslon.
c) Cais C22/0080/32/LL – cais llawn i godi ty unllawr newydd – tir ger Talgoed, Sarn Mellteyrn.
d) Cais C22/0074/32/LL – ailwampio ac ymestyn annedd preswyl gan gynnwys addasu adeilad allanol i ddarparu llety atodol – Pen y Gongl, Llangwnnadl.
e) Cais C22/0052/32/LL – newid defnydd rhan o adeilad o siop (dosbarth defnydd A1) i ffurfio rhan o dŷ (dosbarth defnydd C3) – Belle Vue, Sarn Mellteyrn.

(Datganwyd diddordeb yng nghais (b) uchod gan y Clarc a bu iddi fod yn 'ystafell aros' tra bu'r aelodau yn trafod a phenderfynu ar y cyfryw).

**Penderfynwyd** cefnogi oll o'r ceisiadau uchod ond datgan fod y Cyngor o'r farn fod y fynedfa newydd arfaethedig a gynigir yng nghais (a) uchod yn llawer mwy saff nag sydd ar y safle yn barod ac fod y trigolion lleol yn gefnogol i'r cais.

## 99. MATERION FFYRDD A LLWYBRAU

**Penderfynwyd**

a) Tynnu sylw'r Adran Priffyrdd at gyflwr y ffordd o Graig Fael am Graig Ewig, Bryncroes, ac fod angen sylw brys ar y cyfryw.
b) Gofyn i Swyddog o AHNE gael golwg ar y safleoedd a ganlyn er ceisio trin y canglwm sydd yn tyfu yno – Llety Llyfrant, Bryncroes; dros y ffordd i'r Ganolfan ym Mryncroes a'r tir uwchlaw Garej S a B Robers yn Sarn.

## 100. CRONFA CYMUNEDAU MENTRUS

**Cyflwynwyd** e-bost gan Swyddog Cefnogi Cymunedau, Cyngor Gwynedd, o bethynas i'r gronfa uchod (copi wedi ei anfon i bob aelod gyda'r rhaglen). Teimlwyd fod y gronfa yma yn fwy perthnasol i fudiadau eraill a **phenderfynwyd** awgrymu i'r Swyddog fod y manylion yn cael eu hanfon at Glwb Ffermwyr Ieuainc Rhiw a Chlwb Moduro Harlech a'r Cylch.

## 101. MATERION IECHYD

Nid oedd unrhyw fater wedi dod i sylw'r Cyngor i'w anfon ymlaen at Gyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru.

## 102. CRONFA CYD-YMGYNGHORI AR GYFER CYNLLUN RHEOLI ADNODDAU DWR - DRAFFT DWR CYMRU 2024

**Cyflwynwyd** llythyr Dr. Ian T. Brown, Pennaeth Awdurdod Dwr gan dynnu sylw fod y dogfennau perthnasol i'w gweld ar y wefan a nodir yn y llythyr.
**Penderfynwyd** nodi derbyn y ddogfen ac fod y cyfryw i'w hystyried yng nghyfarfod mis Mawrth.

## 103. AWDURDOD I DALU

Nid oedd unrhyw daliad yn ddyledus y mis hwn.

## 104. CRONFEYDD Y CYNGOR

**Tynnodd** y Clarc sylw at y taliadau gwasanaeth a godir gan yr HSBC yn awr a gofynnodd a ddylid ysytired cyfuno'r ddau gyfrif, y cyfredol a chyfrif y Fynwent. Hefyd a ddylid ystyried symud ymlaen i fancio arlein.

**Penderfynwyd** gofyn am farn Un Llais Cymru ar y mater ac adrodd yn ôl i'r cyfarfod nesaf.

105. **YNNI LLYN**

**Cyflwynwyd** yr e-bost isod oddi wrth Wil Parry, Rheolwr Prosiect Ynni Llyn :

"Tybed oes posib rhannu'r gwahoddiad yma gyda'ch cynghorwyr os gwelwch yn dda. Meddwl y byddai ganddynt ddiddordeb fel cynghorwyr ac fel unigolion mewn bod yn aelod o Gynulliad Hinsawdd Llŷn – gwêl stori yn Golwg 360 Gwahodd trigolion pum ardal i gymryd rhan mewn Cynulliadau Cymunedol ar yr Hinsawdd – Golwg360
Hefyd gwêl wefan GwyrddNi www.gwyrddni.cymru
A linc i ddogfen datgan diddordeb: https://bit.ly/GwyrddNiLlyn
Buaswn yn ddiolchgar petai posib i chi rannu'r gwahoddiad yma mor eang a phosib o fewn eich ardal."

**Penderfynwyd** nodi derbyn yr uchod.

106. **YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH CYMRU AR AIL DAI**

**Cyflwynwyd** e-bost gan Glerc Cyngor Tref Nefyn yn atgoffa bob Cyngor am y pwysigrwydd i lenwi'r ymgynghoriadau ynglyn a'r uchod ac yn atgoffa pawb o'r dyddiad cau sef 22ain Chwefror, 2022.

**Penderfynwyd** symud ymlaen ar fyder i gwblhau'r ymgynghoriadau uchod.